WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad Strwythuredig 2019 – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**


Blwyddyn archwilio: 2019

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1527A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Anne Beegan, John Llewellyn ac Urvisha Perez, dan gyfarwyddyd Dave Thomas.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Cefndir 4

Prif gasgliadau 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

**Trefniadau llywodraethu**: Mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau prosesau sy'n ategu busnes y bwrdd a rheoli risg. Mae'r trefniadau ar gyfer tracio argymhellion wedi gwella'n sylweddol ond fe wnaethant amlygu nifer annerbyniol o uchel o argymhellion archwilio sydd heb eu rhoi ar waith. Mae cyfle i wella'r modd yr adroddir ar berfformiad ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau a llifoedd gwybodaeth rhwng yr uwch dimau rheoli a'r Bwrdd 8

**Cynllunio strategol**: Mae gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Tymor Canolig Integredig a gymeradwywyd am y tro cyntaf mewn tair blynedd, ond ychydig o graffu sydd ar y broses o'i gyflawni gan y Bwrdd a'i bwyllgorau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn cyflawni ei strategaeth hirdymor i lunio llesiant y boblogaeth yn y dyfodol ers bron i bum mlynedd, ond araf yw'r cynnydd 19

**Rheoli adnoddau ariannol**: Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wella'i sefyllfa ariannol refeniw a'i ragfynegiad yw y bydd yn mantoli'r cyfrifon ar ddiwedd 2019-20 ac yn cyrraedd ei darged adnoddau refeniw treigl dros 3 blynedd erbyn 2021-22. Mae rheolaeth ariannol, monitro a throsolwg gan y Bwrdd a phwyllgorau'n gadarn. Ond mae rhai polisïau'n hen ac nid yw pariadau data gan y Fenter Twyll Genedlaethol mewn perthynas â thwyll posibl ym maes caffael wedi cael eu hadolygu eto 21

**Rheoli cynhyrchiant ac effeithlonrwydd y gweithlu**: Mae heriau'n dal i fodoli mewn perthynas â'r gweithlu, megis cydymffurfio o ran cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol, recriwtio i rai swyddi meddygon ymgynghorol a chyfraddau arfarniadau isel. Ond mae'r Bwrdd Iechyd yn canlyn arni â chynlluniau i fynd i'r afael â'i faterion, gyda llwyddiant o ran recriwtio nyrsys a chyflawni ei raglen diwylliant ac arweinyddiaeth 27

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2019 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd). Fe wnaed y gwaith i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol, dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014, i fod wedi'i argyhoeddi bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau.

2 Mae ein gwaith asesu strwythuredig ar gyfer 2019 wedi cynnwys cyfweliadau gyda swyddogion ac Aelodau Annibynnol (AA), arsylwadau yng nghyfarfodydd y bwrdd a phwyllgorau ac adolygiadau o ddogfennau perthnasol, perfformiad a data ariannol.

3 Mae ffocws allweddol asesu strwythuredig ar y trefniadau corfforaethol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Eleni, rhoddodd archwilwyr sylw hollbwysig i'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a'r cyfleoedd ar gyfer gwella a nodwyd yn 2018 ac mewn blynyddoedd blaenorol[1]. Mae'r adroddiad yn grwpio ein canfyddiadau dan bedair thema – trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd, ei waith cynllunio strategol, y modd y mae'n rheoli adnoddau ariannol a'r modd y mae'n rheoli'r gweithlu.

## Cefndir

4 Yn ein hasesiad strwythuredig ar gyfer 2018 daethom i'r casgliad bod trefniadau cynllunio strategol y Bwrdd Iechyd yn gadarn ar y cyfan, ac er ei fod wedi gwneud rhywfaint o gynnydd, roedd angen gwelliannau sylweddol o hyd o ran trefniadau llywodraethu, rheoli risg a monitro perfformiad.

5 Eleni, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella'i statws dan Fframwaith Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru. Ar ôl treulio tair blynedd dan statws ymyrryd wedi'i dargedu, ym mis Mawrth 2019, fe isgyfeiriodd Llywodraeth Cymru y Bwrdd Iechyd i statws monitro manylach ac yna fe'i' hisgyfeiriodd ymhellach i drefniadau rheolaidd ym mis Medi 2019. Fe wnaeth hyn i gydnabod sefyllfa ariannol well y Bwrdd Iechyd a'r ffaith bod ei berfformiad yn gwella, a gyfrannodd at gymeradwyo'i gynllun tymor canolig integredig ym mis Mawrth 2019.

6 Ar gyfer 2018-19, fe nododd y Bwrdd Iechyd ddiffyg ariannol o £9.9 miliwn, a oedd o fewn y targed diffyg dan reolaeth a gytunwyd gyda Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, fe gyfrannodd y sefyllfa hon serch hynny at ddiffyg treigl cronnol dros 3 blynedd a oedd yn gyfanswm o £65.9 miliwn ym mis Mawrth 2019.

[1] Yn gynnar yn 2020, byddwn yn cynnal adolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd; felly, nid ydym wedi gwneud sylwadau ar y maes gwaith hwn. Hefyd, nid ydym wedi gwneud sylwadau ar lywodraethu gwybodaeth gan ein bod yn cynnal adolygiad dilynol ar wahân o argymhellion blaenorol.

7 Ar gyfer yr un cyfnod, fe gyflawnodd y Bwrdd Iechyd yn erbyn ei broffiliau gofal wedi'i drefnu a heb ei drefnu, sy'n un o'r meysydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i'w cryfhau dros y blynyddoedd diwethaf trwy symud o broffilio chwarterol i broffilio misol ar gyfer Targedau Amser rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth (RTT). .

8 Mae'r ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn trefnu ei wasanaethau clinigol a chorfforaethol yn ddigyfnewid i raddau helaeth. Fodd bynnag, bu peth trosiant ymhlith aelodau'r bwrdd. Ym mis Ebrill 2019, fe ymddeolodd y Cyfarwyddwr Meddygol. Rhoddwyd trefniadau interim ar waith nes i'r Cyfarwyddwr Meddygol newydd ymuno ym mis Gorffennaf 2019. Ym mis Mehefin 2019, fe ymgymerodd y Cyfarwyddwr Trawsnewid a Gwybodeg (a oedd hefyd yn Ddirprwy Brif Weithredwr) â'i swydd fel y Prif Weithredwr interim ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae trefniadau interim yn cael eu rhoi ar waith i ysgwyddo ei phortffolio o gyfrifoldebau. Ym mis Tachwedd 2019, fe ymgymerodd Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol â rôl y Dirprwy Brif Weithredwr. Ym mis Awst 2019, fe roddodd Cadeirydd y Bwrdd Iechyd y gorau i'w rôl ac fe gymerodd yr Is-gadeirydd drosodd fel Cadeirydd interim nes bod Cadeirydd newydd yn cael ei benodi. Penodwyd Is-gadeirydd interim ym mis Hydref 2019.

9 Gan bod yr adroddiad hwn yn darparu sylwebaeth ar agweddau allweddol ar gynnydd a materion yn codi ers ein hasesiad strwythuredig diwethaf, dylid ei ddarllen ar y cyd ag ystyried ein hadolygiad yn 2018.

# Prif ganfyddiadau

10 Y casgliad ar y cyfan o'n hasesiad strwythuredig yn 2019 yw **bod y Bwrdd Iechyd yn cryfhau prosesau sy'n cefnogi busnes y bwrdd, rheoli risg a threfniadau ar gyfer tracio argymhellion. Mae ganddo bellach Gynllun Tymor Canolig Integredig a gymeradwywyd, ei ragfynegiad yw y bydd yn mantoli'r cyfrifon ac mae'n gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r gweithlu. Ond mae cyfleoedd i wella, sy'n cynnwys: adrodd ar berfformiad a chraffu ar gyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar lefel y Bwrdd, llifoedd gwybodaeth rhwng yr uwch dimau rheoli a'r Bwrdd a mynd i'r afael â'r nifer fawr o argymhellion archwilio sydd heb eu rhoi ar waith.**

11 Mae'r Bwrdd yn aeddfedu ac mae prosesau sy'n ei gefnogi'n gwella ond mae materion gyda chapasiti aelodau annibynnol. Canfuom gyfleoedd i wella'r llifoedd gwybodaeth rhwng y Bwrdd a strwythurau'r uwch dimau rheoli. Bu gwelliannau sylweddol i reoli risg, gyda Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd bellach yn rhan annatod o broses rheoli risg y Bwrdd Iechyd.

12 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei system ar gyfer tracio argymhellion a chydymffurfio rheoleiddiol. Ond mae hyn wedi amlygu nifer annerbyniol o uchel o argymhellion sydd heb gael eu rhoi ar waith, y mae angen mynd i'r afael â hwy. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau adolygu ei drefniadau rheoli perfformiad. Ond mae angen gwaith pellach i sicrhau bod y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni'n

meddu ar y lefel gywir o wybodaeth am berfformiad i ddarparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd.

13 Am y tro cyntaf mewn tair blynedd, cafodd Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd ei gymeradwyo gan y Gweinidog. Ond canfuom mai ychydig o graffu sydd ar ei gyflawni ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn cyflawni ei strategaeth hirdymor i lunio llesiant y boblogaeth yn y dyfodol er bron i bum mlynedd, ond araf yw'r cynnydd o ran ei chyflawni.

14 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wella'i sefyllfa ariannol refeniw a'i ragfynegiad yw y bydd yn mantoli'r cyfrifon ar ddiwedd 2019-20 ac yn cyrraedd ei darged adnoddau refeniw treigl dros 3 blynedd erbyn 2021-22. Mae trefniadau ar gyfer rheoli a monitro cyllidebau, cynlluniau gwella costau, a gweithredoedd tendrau sengl yn gadarn a cheir trosolwg dda gan y Bwrdd a phwyllgorau. Ond mae rhai polisïau'n hen ac nid yw pariadau data gan y Fenter Twyll Genedlaethol a allai fod o gymorth i ganfod buddiannau staff sydd heb eu datgelu a thwyll mewn perthynas â chaffael wedi cael eu hadolygu eto.

15 Mae heriau mewn perthynas â'r gweithlu'n dal i fodoli, megis cydymffurfio o ran cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol, recriwtio i rai swyddi meddygon ymgynghorol a chyfraddau arfarniadau isel. Ond mae'r Bwrdd Iechyd yn canlyn arni â chynlluniau i fynd i'r afael â'i faterion, ac eleni mae wedi cael llwyddiant o ran recriwtio nyrsys a chyflawni ei raglen diwylliant ac arweinyddiaeth.

16 Rydym yn ystyried ein canfyddiadau mewn mwy o fanylder yn yr adrannau canlynol.

# Argymhellion

17 Mae Arddangosyn 1 yn nodi argymhellion sy'n codi o'r archwiliad hwn. Bydd ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion hyn a'n hadroddiad terfynol ar gael ar ein gwefan unwaith y byddant wedi cael eu hystyried gan y pwyllgor perthnasol. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd hefyd fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol sydd heb gael eu rhoi ar waith.

Arddangosyn 1: Argymhellion 2019

| Argymhellion |
| --- |
| **Amlder ac amseriad cyfarfodydd pwyllgorau**<br>A1 Canfuom gyfle i adolygu amseriadau ac amlder cyfarfodydd rhai pwyllgorau i gynorthwyo aelodau i graffu'n amlach ar wybodaeth gyfredol. Bydd adolygu amseriadau hefyd yn galluogi'r nifer uchaf posibl o aelodau i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd hefyd. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a) adolygu amlder cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio i gau'r bwlch rhwng cyfarfod mis Mai a mis Medi; a<br>b) adolygu capasiti aelodau annibynnol ac amseriadau cyfarfodydd pwyllgorau lle ceir presenoldeb anfynych gan aelodau annibynnol. |
| **Y Fframwaith Rheoli Perfformiad**<br>A2 Canfuom fod monitro perfformiad ar lefel weithredol yn gadarn, ond mae angen gwella peth o'r wybodaeth y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n ei chael. Pan fydd y Bwrdd Iechyd yn ailgychwyn yr adolygiad o'i fframwaith perfformiad dylai ei estyn i gynnwys:<br>• monitro'r modd y cyflawnir y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar sail chwarterol ac adrodd wrth y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni a'r Bwrdd ar y sefyllfa yn ei chyfanrwydd, Rydym wedi awgrymu'n flaenorol y dylid cyflwyno fersiwn gryno i'r pwyllgor o'r adroddiadau ar gynnydd gyda'r Cynllun Tymor Canolig Integredig sydd ar gael yn adolygiadau o berfformiad byrddau clinigol.<br>• sicrhau bod y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni'n cael yr un wybodaeth fanwl am berfformiad ac y mae'r Bwrdd yn ei chael neu wybodaeth fanylach.<br>• adolygu fformat ac eglurder y dangosfwrdd perfformiad yr adroddir wrth y Bwrdd arno ar hyn o bryd. |

# Adroddiad manwl

## Trefniadau llywodraethu

18 Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi archwilio trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd. Fe wnaethom fwrw golwg ar y ffordd y mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau'n cynnal eu busnes, ac i ba raddau y mae strwythurau sefydliadol yn cefnogi trefniadau llywodraethu da ac atebolrwydd eglur. Fe wnaethom ystyried yr wybodaeth y mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau'n ei chael i'w helpu i oruchwylio a herio perfformiad a monitro'r modd y cyflawnir amcanion sefydliadol. Fe wnaethom hefyd adolygu'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion.

19 Yn 2019, canfuom fel a ganlyn: **mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau prosesau sy'n ategu busnes y bwrdd a rheoli risg. Mae'r trefniadau ar gyfer tracio argymhellion wedi gwella'n sylweddol ond fe wnaethant amlygu nifer annerbyniol o uchel o argymhellion archwilio sydd heb eu rhoi ar waith. Mae cyfle i wella'r modd yr adroddir ar berfformiad ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau a llifoedd gwybodaeth rhwng yr uwch dimau rheoli a'r Bwrdd.** Caiff y canfyddiadau eu nodi isod.

### Cynnal busnes yn effeithiol

Mae'r Bwrdd yn aeddfedu ac mae prosesau sy'n ei gefnogi'n gwella ond mae problemau gyda chapasiti aelodau annibynnol. Ceir cyfleoedd i wella llifoedd gwybodaeth rhwng y Bwrdd ac uwch dimau rheoli

20 Canfu ein Hasesiad Strwythuredig yn 2018 fod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i wella sut yr oedd y Bwrdd a'i bwyllgorau'n cynnal busnes, ond nad oedd wedi cyflawni arfer da cyson eto. Eleni mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Rhaglen Gwella Llywodraethu Corfforaethol, sy'n amcanu at ailsefydlu prosesau a gweithdrefnau llywodraethu sylfaenol sy'n cefnogi'r Bwrdd. Mae'r rhaglen yn cynnwys sicrhau bod Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, amodau gorchwyl pwyllgorau a rhaglenni gwaith pwyllgorau wedi'u diweddaru a bod gan y Bwrdd Iechyd systemau priodol ar gyfer cynnal uniondeb a phriodoldeb. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da gyda'r rhaglen wella, ond mae'n cymryd yn hwy nag a fwriadwyd. Mae dau reswm dros hyn, sef problemau capasiti yn y tîm llywodraethu corfforaethol a hefyd y ffaith bod y tîm yn sicrhau bod systemau presennol yn cael eu hadolygu'n drylwyr a bod prosesau newydd yn cael eu rhoi ar waith yn iawn.

21 Canfu ein gwaith yn 2018 fod amodau gorchwyl a chynlluniau gwaith pwyllgorau'n hen. Mae'r rhain wedi cael eu hadolygu ers hynny ac ym mis Mawrth 2019, fe gymeradwyodd y Bwrdd benodiad naw pwyllgor ar gyfer 2019-20, eu hamodau gorchwyl a'u rhaglenni gwaith. Ym mis Mai 2019, fe gymeradwyodd y Bwrdd ei gynllun busnes ar gyfer 2019-20. Mae strwythurau pwyllgorau'n dal i fod yr un fath â'r llynedd i raddau helaeth, ac eithrio un pwyllgor newydd. Mae'r Is-bwyllgor Gwybodaeth, Technoleg a Llywodraethu gynt bellach yn un o bwyllgorau'r Bwrdd

ac mae wedi cael ei ail-enwi’n Bwyllgor Gwybodaeth Iechyd Digidol. Cyfarfu am y tro cyntaf ym mis Awst 2019. Mae’r Pwyllgor Archwilio wedi cael ei ail-enwi’n Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd hefyd i adlewyrchu ei gylch gorchwyl yn well. Pan fydd yr amodau gorchwyl yn cael eu hadolygu nesaf, dylai’r Bwrdd Iechyd leihau unrhyw orgyffwrdd neu ddyblygu i’r eithaf. Dylai hefyd adolygu trefniadau ar gyfer croesgyfeirio materion rhwng pwyllgorau.

22 Mae’r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn gyfnod o ymgynefino i’r Bwrdd, gydag aelodau annibynnol a gweithredol newydd. Yn ystod 2019, rydym wedi sylwi ar aeddfedrwydd cynyddol mewn ymddygiad, craffu a herio yn y Bwrdd a chyfarfodydd nifer o bwyllgorau[2]. Mae’r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio tuag at wella ansawdd craffu trwy godi’r sgwrs o fanylder gweithredol i faterion strategol. Gellir priodoli hyn i Fwrdd a strwythur pwyllgorau mwy sefydledig, AAau yn tyfu mewn hyder a gwella trefniadau sy’n cefnogi craffu.

23 Fodd bynnag, trwy ein harsylwadau rydym hefyd wedi sylwi ar rai problemau. Mae gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad[3] agenda a phapurau swmpus. Mae hyn yn cynyddu’r risg na fydd y pwyllgor yn canolbwyntio ar y meysydd cywir. Cafodd aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ei ddiweddaru, ac rydym wedi gweld gwelliant yn ansawdd y trafodaethau a’r craffu. Ond rydym yn pryder ynghylch natur anfynych y cyfarfodydd hyn, gan na chynhelir unrhyw gyfarfod rhwng mis Mai a mis Medi bob blwyddyn. Ar y cyfan, mae’r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni yn dal i ymsefydlu, mae ei gylch gorchwyl yn gliriach ac mae lefel dda o graffu, er bod gennym bryderon o hyd ynghylch yr wybodaeth gyfyngedig i’w gwneud yn bosibl craffu ar berfformiad a chyflawni’r Cynllun Tymor Canolig Integredig.

24 Ym mis Mai 2019, fe gymeradwyodd y Bwrdd rai newidiadau yn aelodaeth pwyllgorau a hyrwyddwyr y Bwrdd. Mae gan y rhan fwyaf o bwyllgorau dri AA gan gynnwys y Cadeirydd. Ond rydym wedi canfod bod presenoldeb rhai AAau yn amrywiol sy’n rhoi cworwm mewn cyfarfodydd ac felly prosesau penderfynu mewn perygl. Er enghraifft, yng nghyfarfod y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni ym mis Mehefin 2019, dim ond y Cadeirydd oedd yn bresennol. Mae’r Cadeirydd interim yn ymwybodol o’r broblem hon ac mae’n ceisio adolygu aelodaeth pwyllgorau. Byddem hefyd yn awgrymu adolygu capasiti aelodau annibynnol ac amseriad cyfarfodydd i’w gwneud yn bosibl cynyddu presenoldeb. Ceir sefyllfa fregus hefyd o ran trosiant AAau. Bu un AA yn llai ers i’r Cadeirydd adael ym mis Awst 2019, mae cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn rhoi’r gorau i fod yn AA ym mis Hydref 2019, ac mae dau AA yn disgwyl i gael eu hailgadarnhau.

[2] Fel rhan o’n gwaith asesu strwythuredig, fe arsylwon ni ar nifer o gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau, yn enwedig y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a’r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (QSE).

[3] Byddwn yn arsylwi ar fwy o gyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad fel rhan o’n harchwiliad o’r trefniadau llywodraethu ansawdd sydd ar fin digwydd.

25 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod nad yw ei drefniadau llywodraethu gweithredol yn gweithio cystal ag y gallent, felly mae'n eu hadolygu. Y bwriad yw mai'r Bwrdd Rheoli Gwasanaethau Iechyd, sy'n cynnwys arweinwyr gweithredol ac arweinwyr byrddau clinigol, fydd y corff penderfynu. Bydd y Tîm Rheoli Gweithredol, sy'n cynnwys yr arweinwyr gweithredol, yn gweithredu fel bwrdd seinio. Mae'r amodau gorchwyl ar gyfer y ddau grŵp yn cael eu hadolygu. Fodd bynnag, dylai'r Bwrdd Iechyd estyn yr adolygiad hwn i egluro pa wybodaeth ddylai lifo rhwng y grwpiau hyn a'r Bwrdd a'i bwyllgorau.

26 Mae Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau gynnal adolygiad blynyddol o'u heffeithiolrwydd. Cynhaliwyd yr adolygiadau am y tro cyntaf yn 2019 gan ddefnyddio arolwg electronig. Mae'r holl bwyllgorau, ac eithrio'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, wedi cael adborth. Datblygwyd cynlluniau gwella lle arweiniodd atebion i gwestiynau'r arolwg at ymateb 'digonol', 'angen gwella' neu 'dim ymateb'. Un o'r materion cyffredin a adnabuwyd trwy'r adolygiad oedd amseroldeb cofnodion. Mewn ymateb, mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol wedi cyflwyno terfyn amser o un wythnos i baratoi cofnodion a'u hanfon at briod gadeiryddion pwyllgorau i gael eu cadarnhau. Dywedodd y rhai y gwnaethom gyfweld â hwy wrthym fod ansawdd y papurau'n gwella a bod y Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i leihau maint papurau cyfarfodydd. Cafodd y templed eglurhaol ar gyfer papurau'r Bwrdd a phwyllgorau ei ddiweddaru y llynedd ac mae'n gweithio'n dda, ond mae gwelliannau pellach yn yr arfaeth. Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd papurau eglurhaol, a gaiff eu hysgrifennu gan gyfarwyddwyr cynorthwyol fel arfer, yn cael eu cymeradwyo gan gyfarwyddwyr gweithredol i sicrhau eu bod yn amlygu negeseuon allweddol.

27 Mae sesiynau datblygu'r Bwrdd yn digwydd bob deufis. Ym mis Gorffennaf 2019, cafodd y Bwrdd ei raglen datblygu ar gyfer 2019-20. Cafodd yr Aelodau gyfle i gyfrannu at y cynllun drafft. Mae cynllun datblygu'r bwrdd yn ddogfen fyw y gellir ei diwygio fel y bo angen. Yn y dyfodol, y bwriad yw cyflwyno'r cynllun datblygu i'r Bwrdd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol hefyd yn gweithio i ddatblygu rhaglen sefydlu ar gyfer AAau newydd ac aelodau sy'n newydd i bwyllgor.

28 Fe wnaeth ein gwaith Asesu Strwythuredig yn 2018 amlygu nifer o wendidau mewn systemau rheolaeth fewnol sy'n cefnogi sicrwydd y bwrdd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â'r materion hyn trwy ei Raglen Gwella Llywodraethu Corfforaethol (paragraff 20). Yn benodol, mae wedi adolygu ei Reolau Sefydlog, nad oeddent wedi cael eu hadolygu ers mis Mai 2015. Hefyd, cafodd cynllun gweithredu a oedd yn mynd i'r afael â meysydd lle ceir diffyg cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Medi 2019. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei rheolau sefydlog enghreifftiol wedi'u hadolygu ym mis Medi 2019, gyda chyfarwyddeb i'w rhoi ar waith fan bellaf erbyn 30 Tachwedd 2019. Mae'r Cynllun Cadw'n Ôl a Dirprwyo yn rhan o'r Rheolau Sefydlog ac fe'i hadolygwyd ddiwethaf ym mis Mai 2015. Mae hwn wedi'i restru fel maes lle ceir diffyg cydymffurfio; roedd bwriad y byddai'r Bwrdd yn cael fersiwn ddiweddaredig ym mis Gorffennaf 2019. Mae hyn yn dal yn yr arfaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd

yn bwriadu diweddaru ei gynllun dirprwyo manwl, a adolygwyd ddiwethaf ym mis Chwefror 2018.

29 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu ei Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ers mis Mai 2015. Fodd bynnag, mae'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn cael eu hadolygu a'u diweddaru ar lefel Cymru gyfan ac mae disgwyl iddynt gael eu cyhoeddi ar gyfer dechrau 2020-21. Yn y cyfamser, byddem yn disgwyl i'r Bwrdd Iechyd fynd ati'n flynyddol i adolygu dogfennau sy'n ategu'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, megis y cynllun dirprwyo, yn unol â'r argymhelliad yn yr adroddiad ar ein hasesiad strwythuredig yn 2018.

30 Y llynedd, fe wnaethom nodi bod y tîm archwilio mewnol wedi cyhoeddi adroddiad sicrwydd cyfyngedig ar safonau cynnal busnes, gan ganolbwyntio'n benodol ar drefniadau ar gyfer datganiadau o fuddiant a rhoddion, lletygarwch a nawdd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael ag argymhellion y tîm archwilio mewnol a chafodd sicrwydd sylweddol ym mis Medi 2019. Mae polisi'r Bwrdd Iechyd ar bolisïau wedi cael ei ddiweddaru ac mae i fod i gael ei ddiweddaru nesaf yn 2020. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod y gofrestru polisïau gyfredol, sy'n rhestru dros 400 o ddogfennau, yn dangos nifer o bolisïau sy'n hen a diffyg cysondeb o ran y defnydd o'r termau polisi, canllawiau, protocol a gweithdrefn. I fynd i'r afael â'r materion hyn mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu rhaglen gwella polisïau. Adroddir ar gynnydd yn chwarterol wrth y Bwrdd Rheoli Gwasanaethau Iechyd a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli Gweithredol hefyd.

31 Yn 2017 a 2018 fe wnaethom nifer o argymhellion i wella trefniadau llywodraethu. Mae Arddangosyn 2 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 2: cynnydd gydag argymhellion llywodraethu 2017 a 2018

| Argymhellion 2018 | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| **Llywodraethu**<br>A3. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a) Diweddaru'r Cynllun Dirprwyo i adlewyrchu'r cyfrifoldeb sydd wedi'i ddirprwyo dros gyfrifo lefelau staffio nyrsys ar gyfer wardiau meddygol a llawfeddygol acíwt i gleifion mewnol;<br>b) Adolygu a diweddaru'r Rheolau Sefydlog a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, gan sicrhau bod y dogfennau hyn yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo'n flynyddol;<br>c) Gwella fformat y cofrestrau ar gyfer datgan buddiannau a rhoddion, lletygarwch a nawdd a chadarnhau pa mor aml y cyflwynir y cofrestrau gerbron y Pwyllgor Archwilio;<br>d) Sicrhau bod y tîm llywodraethu yn rheoli gwaith i adnewyddu polisïau a dylunio proses er mwyn sicrhau bod adolygiadau polisi yn parhau i fod yn gyfredol;<br>e) Adolygu cylchoedd gorchwyl yr holl bwyllgorau er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol, na cheir unrhyw orgyffwrdd rhyngddynt a'u bod yn cael eu hadolygu'n flynyddol; a<br>f) Sicrhau bod gan yr holl bwyllgorau raglen waith gyfredol sy'n gysylltiedig â chylch cyfarfodydd y Bwrdd, ac a adolygir yn flynyddol. | **Ar y trywydd cywir ond heb ei gwblhau eto**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da yn erbyn ein hargymhellion llywodraethu. Mae'r pwyntiau bwled isod yn manylu ar y cynnydd:<br>a) **Yn yr arfaeth** – nid yw'r cynllun dirprwyo'n adlewyrchu'r cyfrifoldeb dirprwyedig dan Ddeddf Lefelau Staffio Nyrsys (Cymru) eto.<br>b) **Wedi'i gwblhau'n rhannol** – cafodd y Rheolau Sefydlog diweddaredig eu cymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2019. Nid yw'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog wedi cael eu hadolygu eto.<br>c) **Wedi'i gwblhau** – cafodd safonau cynnal busnes sicrwydd sylweddol ym mis Medi 2019.<br>d) **Wedi'i gwblhau** – mae'r polisi ar bolisïau wedi cael ei ddiweddaru ac mae rhaglen gwella polisïau ar waith.<br>e) **Wedi'i gwblhau** – ym mis Mawrth 2019, fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo'r amodau gorchwyl diwygiedig ar gyfer pwyllgorau.<br>f) **Wedi'i gwblhau** – rhaglenni gwaith yr holl fyrddau a chynllun busnes y Bwrdd wedi'u cymeradwyo ym mis Mawrth a mis Mai 2019 yn y drefn honno. |
| **Argymhellion 2017** | **Disgrifiad o'r Cynnydd** |
| **Papurau'r Bwrdd/Pwyllgorau**<br>A3. Er mwyn galluogi proses graffu effeithiol, mae angen i'r Bwrdd Iechyd wella ansawdd ei bapurau i'r Bwrdd a Phwyllgorau drwy sicrhau bod hyd a chynnwys y papurau a gyflwynir yn briodol ac yn hwylus. | **Wedi'i gwblhau**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ac mae'n parhau i wella ansawdd papurau'r Bwrdd a phwyllgorau. |
| **Papurau'r Pwyllgor Cyllid**<br>A4. Er mwyn gwella tryloywder, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod papurau'r Pwyllgor Cyllid ar gael ar ei wefan yn amserol. | **Wedi'i gwblhau**<br>Mae papurau'r Pwyllgor Cyllid bellach ar gael yn gyson ar wefan y Bwrdd Iechyd cyn y cyfarfod. |

## Rheoli risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'w drefniadau rheoli risg, gan bod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd bellach yn rhan annatod o'i broses rheoli risg

32 Canfu ein Hasesiad Strwythurol yn 2018 fod oedi wedi bod cyn diwygio'r fframwaith risg a sicrwydd corfforaethol, a oedd yn golygu nad oedd digon o drosolwg gan y Bwrdd ar ei risgiau strategol am bron i flwyddyn. Ym mis Tachwedd 2018, fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, a ddisodlodd y fframwaith risg a sicrwydd corfforaethol yr oeddem wedi bod yn feirniadol ohono yn y gorffennol.

33 Eleni, canfuom fod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn rhan annatod o broses rheoli risg y Bwrdd Iechyd. Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd bellach yn eitem sefydlog ar agenda'r Bwrdd ac mae gwelliannau wedi cael eu gwneud dros y flwyddyn. Er enghraifft, mae'r ddogfen bellach yn amlygu newidiadau megis i'r sgôr risg neu gamau gweithredu i liniaru risgiau. Cyn bod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd mae'n cael ei adolygu gan y tîm arwain gweithredol ac yn cael ei ddiweddaru gan y swyddog gweithredol sy'n berchen ar y risg a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol. I ddarparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd, aseinir risgiau unigol i'r pwyllgorau perthnasol a chânt eu hadolygu ganddynt.

34 Mae datblygu, cynnal a chraffu ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn rhan o raglen gwella rheoli risg y Bwrdd Iechyd, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2018. Ceir trosolwg dda ar y gwaith hwn gan y Bwrdd ac mae'r newidiadau i brosesau rheoli risg yn helpu i sicrhau craffu gwell. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da yn erbyn y rhaglen wella.

35 Yn niwrnod datblygu'r Bwrdd ym mis Ebrill 2019, fe wnaeth asesiad gan y Bwrdd Iechyd ddynodi bod ei awydd cyfredol am risg[4] yn 'gochelgar'. Mae'r Strategaeth Rheoli Risg a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2019, yn datgan y bydd awydd y Bwrdd am risg yn cael ei adolygu'n flynyddol. I ategu'r strategaeth, mae gweithdrefn rheoli risg wedi cael ei datblygu. Mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol, sy'n gyfrifol am reoli risg, yn cyflwyno hyfforddiant ar y weithdrefn i Gyfarwyddiaethau Corfforaethol a Byrddau Clinigol.

36 Mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol wedi bod yn adolygu'r cofrestrau risg ar gyfer y cyfarwyddiaethau corfforaethol a'r byrddau clinigol i ddeall sut y mae risg yn cael ei rheoli ac i gyflwyno dull mwy cyson. Mae'r gwaith hwn yn rhan annatod o ddatblygu cofrestr risg gorfforaethol y Bwrdd Iechyd, a fydd yn cynnwys risgiau gweithredol â sgôr risg o 20 ac uwch. Ar adegau, efallai y bydd gan fyrddau clinigol a chyfarwyddiaethau corfforaethol risgiau sy'n cael sgôr o lai na 20 y maent yn teimlo nad ydynt yn gallu eu lliniaru. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ganddo

[4] Fe asesodd y Bwrdd ei awydd am risg gan ddefnyddio Matrics y Sefydliad Llywodraethu Da ar gyfer Sefydliadau'r GIG.

system i uwchgyfeirio a rheoli risgiau o'r fath. Ar hyn o bryd, ceir pryderon bod rhai byrddau clinigol yn rhoi sgôr rhy uchel i risgiau, a fyddai'n rhoi gormod o faich ar y gofrestr risg gorfforaethol. Fodd bynnag, dros amser dylai hyfforddiant ar y weithdrefn rheoli risg helpu i leihau'r risg hon wrth i berchnogion risg ddysgu rhoi sgoriau priodol.

37 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio dull graddol o ddatblygu ei gofrestr risg gorfforaethol. Cyflwynwyd y drafft cyntaf i'r Bwrdd yn ei gyfarfod cyntaf ym mis Tachwedd 2019. Ni fydd y fersiwn hon yn berffaith ond bydd yn gwella dros y flwyddyn, ac wrth i gofrestrau risg weithredol gryfhau. Yn y cyfamser, byddir yn gofyn i fyrddau clinigol a chyfarwyddiaethau corfforaethol ddarparu eu tair i bum prif risg i'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol gan ddefnyddio gweithdrefn rheoli risg newydd. Bydd y gofrestr risg gorfforaethol yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd Rheoli Gwasanaethau Iechyd cyn y Bwrdd. Ar hyn o bryd, mae systemau rheoli risg y Bwrdd Iechyd yn rhai papur. Mae'n bwriadu rhoi'r system risg seiliedig ar y we, DATIX, ar waith erbyn mis Ebrill 2020.

38 Yn 2017, fe wnaethom un argymhelliad mewn perthynas â rheoli risg. Mae Arddangosyn 3 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 3: cynnydd gyda'r argymhelliad ynghylch rheoli risg a wnaed yn 2017

| Argymhellion yn 2017 | Disgrifiad o'r Cynnydd |
| --- | --- |
| **Rheoli Risg**<br>A5. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd atgyfnerthu ei fframwaith sicrwydd risg gorfforaethol drwy:<br>• diweddaru'r strategaeth llywodraethu gwybodaeth;<br>• adolygu'r sicrwydd sy'n ofynnol;<br>• gwella eglurder disgrifiadau o risgiau; ac<br>• egluro wrth y darllenydd erbyn pa ddyddiad y caiff risgiau eu diweddaru a/neu eu hychwanegu. | **Wedi'i gwblhau**<br>Mae'r fframwaith sicrwydd risg gorfforaethol wedi cael ei ddisodli gan Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd sydd bellach yn rhan annatod o broses rheoli risg y Bwrdd Iechyd ac yn cael ei adolygu ar lefel y Bwrdd a swyddogion gweithredol. |

## Sefydlu system gadarn o sicrwydd

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei system ar gyfer tracio argymhellion a chydymffurfio rheoleiddiol, ond mae hyn wedi canfod nifer annerbyniol o uchel o argymhellion sydd heb gael eu rhoi ar waith

39 Fe wnaeth ein Hasesiad Strwythuredig yn 2018 amlygu gwendid parhaus yn system y Bwrdd Iechyd ar gyfrer tracio argymhellion mewnol ac allanol. Gan adleisio rhai o'n pryderon, fe gyhoeddodd y tîm archwilio mewnol adroddiad sicrwydd cyfyngedig ar gydymffurfio deddfwriaethol, ym mis Chwefror 2019. Roedd hwn yn amlygu materion megis fformat gwael yr adroddiad tracio, diffyg rhestr gynhwysfawr o reoleiddwyr gofynnol a chamau gweithredu a gwblhawyd yn peidio â chael eu hategu gan dystiolaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu ar argymhellion y tîm archwilio mewnol ac o ganlyniad fe wnaeth adolygiad dilynol ym mis Medi 2019 roi sicrwydd rhesymol.

40 Mewn ymateb i'n hargymhellion ni a rhai'r tîm archwilio mewnol, mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol wedi diweddaru systemau i dracio argymhellion mewnol ac allanol a chydymffurfio rheoleiddiol. Fel a argymhellwyd yn Asesiad Strwythuredig y llynedd, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd adolygu'r holl argymhellion mewnol ac allanol a oedd heb eu rhoi ar waith ac fe adroddodd wrth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar y canfyddiadau ym mis Medi 2019. Datgelodd yr ymarfer fod gan y Bwrdd Iechyd nifer annerbyniol o uchel o argymhellion a oedd heb gael eu rhoi ar waith, 201 ar y cyfan[5]. I wella'r sefyllfa hon, mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol wedi dechrau gwneud gwaith dilynol ar argymhellion gydag arweinwyr gweithredol ar sail chwarterol. Bydd arweinwyr gweithredol ac arweinwyr byrddau clinigol yn trafod adroddiadau archwilio yn y dyfodol. 'Gwaith ar y gweill' yw'r offer tracio, ond bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn gallu cael mwy o sicrwydd o'r system dracio wrth iddi wella ac ymsefydlu. Fodd bynnag, dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried defnyddio adolygiadau'r byrddau clinigol o berfformiad i ddwyn gwasanaethau i gyfrif ar argymhellion sydd heb gael eu rhoi ar waith. Hefyd, dylai fersiynau o'r offer tracio yn y dyfodol amlygu gwendidau a themâu cyffredin a amlygwyd gan arolygiaethau. Mae'r offer tracio'n ddogfennau byw a dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod capasiti digonol o fewn y tîm llywodraethu corfforaethol i gynnal y system hon.

41 Mae'r offeryn tracio deddfwriaethol a rheoleiddiol yn rhestru'r holl gyrff rheoleiddio sy'n arolygu'r Bwrdd Iechyd a'r safon reoleiddiol a arolygir. Mae gan bob safon a/neu gorff bwyllgor gweithredol a sicrwydd arweiniol lle bydd adroddiadau arolygu a chynlluniau gweithredu'n cael eu cyflwyno. Mae'r offeryn tracio hefyd yn rhestru, lle mae gwybodaeth ar gael, cylchoedd arolygu, dyddiadau arolygu cyfredol ac yn y

[5] Mae 49 o argymhellion gan Swyddfa Archwilio Cymru a wnaed rhwng 2017-18 a 2019-20 sydd heb gael eu rhoi ar waith. Mae 152 o argymhellion archwilio mewnol a wnaed yn 2017-18 a 2018-19 heb gael eu rhoi ar waith. Mae'r prif offeryn tracio'n mynd yn ôl i 2013-14.

dyfodol, lle cynhaliwyd arolygiadau 10 mlynedd neu fwy yn ôl a chanlyniad arolygiadau. Mae’r Bwrdd Iechyd yn bwriadu symleiddio’r offeryn tracio hwn trwy ddatblygu dangosfwrdd gweledol, fel yr un a ddefnyddir gan y Bwrdd Clinigol Diagnosteg Glinigol a Therapïau.

42 Mae Arddangosyn 4 yn disgrifio’r cynnydd a wnaed o ran rhoi argymhellion yr Hasesiad Strwythuredig a gwblhawyd gennym yn 2017 ar waith a’r argymhellion a wnaed gennym yn 2018 ar dracio argymhellion.

Arddangosyn 4: cynnydd gyda’r argymhellion o’n Hasesiad Strwythuredig yn 2017 ac argymhelliad 2018 ar dracio argymhellion

| Argymhellion 2018 | Disgrifiad o’r Cynnydd |
|---|---|
| **Rhoi argymhellion 2017 ar waith**<br>A1. Dylai'r Bwrdd Iechyd gwblhau ein hargymhellion o asesiad strwythuredig 2017 erbyn diwedd 2019. Argymhellion sy’n ymwneud â thargedau arbedion, ansawdd gwybodaeth, gweinyddu pwyllgorau, rheoli risg ac adrodd ar berfformiad. | **Ar y trywydd cywir ond heb ei gwblhau eto**<br>Mae’r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd yn erbyn yr argymhellion a waned gennym yn 2017[6]. Manylir ar yr argymhellion yn ein hadroddiad ar Asesiad Strwythuredig 2017. |
| **Tracio argymhellion archwilio**<br>A2. Dylai'r Bwrdd Iechyd wella'i drefniadau ar gyfer tracio argymhellion drwy:<br>a) mynd i'r afael â'r argymhellion sy'n weddill o asesiad strwythuredig 2016 er mwyn cryfhau'r trefniadau ar gyfer tracio argymhellion archwilio allanol;<br>b) cynnwys tracio argymhellion archwilio mewnol; a<br>c) cwblhau adolygiad o'r holl argymhellion archwilio mewnol ac allanol sy'n weddill ac adrodd y canfyddiadau wrth y Pwyllgor Archwilio. | **Wedi’i gwblhau**<br>Bellach mae gan y Bwrdd Iechyd offer tracio ar gyfer argymhellion archwilio mewnol ac allanol ac ar gyfer cydymffurfio deddfwriaethol a rheoleiddiol. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi adolygu’r holl argymhellion mewnol ac allanol sydd heb gael eu rhoi ar waith ac wedi adrodd wrth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar y canfyddiadau hyn ym mis Medi 2019. |

[6] Ni allwn wneud sylwadau ar argymhellion sy’n ymwneud â llywodraethu gwybodaeth nes ein bod wedi cwblhau ein hadolygiad dilynol ar wahân o argymhellion blaenorol.

## Trefniadau rheoli perfformiad

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau adolygu ei drefniadau rheoli perfformiad. Mae angen gwaith pellach i sicrhau bod y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni'n meddu ar y lefel gywir o wybodaeth am berfformiad i ddarparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd

43 Y llynedd canfuom nad oedd fframwaith rheoli perfformiad y Bwrdd Iechyd wedi cael ei adolygu ers 2013. Felly nid oedd yn adlewyrchu strwythurau a threfniadau perfformiad cyfredol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau adolygu ei drefniadau rheoli perfformiad trwy adolygu a mapio sut a ble y creffir ar berfformiad. Cyflwynwyd papur cychwynnol i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni ym mis Ebrill 2019, ond bu oedi gyda'r cynnydd oherwydd bwlch sydyn mewn capasiti o fewn y tîm gweithredol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu ailgydio yn y gwaith hwn ond dylai estyn y gwaith hwn i ystyried y materion a amlygir isod ac i wella'r modd y creffir ar gyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (gweler paragraff 52). Mewn blynyddoedd blaenorol, canfuom fod trefniadau rheoli perfformiad yn gadarn ar lefel weithredol ond bod gwendidau ar lefel strategol am bod yr wybodaeth am berfformiad a oedd yn cael ei chyflwyno mewn pwyllgorau'n llai manwl na'r wybodaeth a oedd yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd. Ers mis Ebrill 2019, mae'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni'n cael adroddiad eglurhaol gyda naratif cryno lefel uchel i gyd-fynd â'r data ar berfformiad gyda thargedau haen 1. Er bod hyn yn welliant o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, mae'n dal yn llai manwl na'r hyn y mae'r Bwrdd yn ei gael. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn craffu'n fanwl ar berfformiad ariannol ac mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd trwy adroddiad cryno ar y sefyllfa ariannol. Dylai fod system debyg ar gyfer darparu sicrwydd ynghylch mesurau perfformiad allweddol. Cyflwynir y dangosfwrdd perfformiad ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd gyda naratif sy'n cyd-fynd ag ef ar feysydd perfformiad a flaenoriaethwyd gan y Bwrdd. Mae yw fformat y dangosfwrdd perfformiad yn golygu nad yw'n hawdd i'w ddarllen, gan bod y ffont yn rhy fach ac yn dod yn niwlog wrth ehangu'r dudalen. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu cynnwys a fformat adroddiadau ar berfformiad ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau .

44 Fel a adroddwyd mewn Asesiadau Strwythuredig blaenorol, mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau adolygu perfformiad ac uwchgyfeirio ar gyfer y byrddau clinigol. Yn seiliedig ar sefyllfa mis Medi 2019, mae tri bwrdd clinigol – Arbenigol, Meddyginiaeth a Llawdriniaeth – wedi cael eu huwchgyfeirio oherwydd pryderon ynghylch perfformiad a gweithgarwch ariannol.

45 Cafodd y dangosfwrdd perfformiad, sy'n dangos mesurau cenedlaethol a lleol, ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Medi 2019. Yn seiliedig ar y sefyllfa ym mis Awst 2019, allan o'r 70 o ddangosyddion perfformiad a gyflwynwyd, cafodd 23 eu sgorio'n wyrdd, cafodd 21 eu sgorio'n ambr a chafodd 26 eu sgorio'n goch. Mae'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2018-19 yn cynnwys crynodeb Llywodraeth Cymru o berfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn mesurau'r fframwaith cyflawni deilliannau. Mae'n dangos bod perfformiad y Bwrdd Iechyd wedi gwella yn erbyn 35 o fesurau, wedi cael ei gynnal yn erbyn 2 a bod perfformiad wedi dirywio yn erbyn 30 o

fesurau. Mae meysydd penodol i'w gwella'n cynnwys perfformiad yn erbyn achosion brys o ganser tybiedig ac ôl-groniadau o ran apwyntiadau dilynol ar gyfer cleifion allanol.

46 Yn 2017 a 2018 fe wnaethom argymhellion ynghylch rheoli perfformiad. Mae Arddangosyn 5 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 5: cynnydd yn erbyn argymhellion ynghylch rheoli perfformiad a wnaed yn 2017 a 2018

| Argymhellion 2018 | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| **Rheoli perfformiad**<br>A4. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru ei fframwaith rheoli perfformiad i adlewyrchu'r newidiadau trefniadol a gyflwynwyd i'r sefydliad ers 2013. | **Ar y trywydd cywir ond heb ei gwblhau eto**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau adolygu ei drefniadau rheoli perfformiad, ond bu oedi gyda'r cynnydd oherwydd problemau capasiti yn haf 2019. |
| **Argymhellion 2017** | **Disgrifiad o'r Cynnydd** |
| **Adrodd ar berfformiad**<br>A7. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y lefel o wybodaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni am ei berfformiad yn ddigonol i alluogi'r Pwyllgor i graffu'n effeithiol. Dylai hyn gynnwys:<br>a) sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybodaeth fanylach am berfformiad na'r hyn a gaiff y Bwrdd. Dylid ystyried cynnwys crynodeb o ddangosfyrddau'r Bwrdd Clinigol a Gwasanaeth a ddefnyddir yn yr adolygiadau rheoli perfformiad gweithredol misol;<br>b) Gweler Arddangosyn 9 ar gyfer yr argymhellion ynghylch metrigau'r gweithlu. | **Disodlwyd gan argymhelliad yn 2019**<br>Bellach mae'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni'n cael naratif cryno i gyd-fynd â data ar berfformiad. Ond mae'r manylion a ddarperir yn dal yn llai na'r hyn y mae'r Bwrdd yn ei gael. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu trefniadau adrodd ar berfformiad fel rhan o'i drefniadau rheoli perfformiad (gweler Arddangosyn 1; ac Argymhelliad 4 uchod). |

# Cynllunio strategol

47 Mae ein gwaith yn ystyried sut y mae'r Bwrdd yn pennu amcanion strategol ar gyfer y sefydliad a pha mor dda y mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio ar gyfer cyflawni'r rhain, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael, neu y gall drefnu eu bod ar gael, iddo. Rydym hefyd yn archwilio trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro'r cynnydd yn erbyn ei amcanion a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud.

48 Yn 2019, canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Tymor Canolig Integredig a gymeradwywyd am y tro cyntaf mewn tair blynedd, ond ychydig o graffu sydd ar y broses o'i gyflawni gan y Bwrdd a'i bwyllgorau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn cyflawni ei strategaeth hirdymor i lunio llesiant y boblogaeth yn y dyfodol ers bron i bum mlynedd, ond araf yw'r cynnydd.**

49 Eleni mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i symleiddio ei broses gynllunio ar gyfer y Cynllun Tymor Canolig Integredig a chynlluniau cynnydd sy'n tanategu ei strategaeth hirdymor i lunio llesiant y boblogaeth yn y dyfodol (strategaeth 10 mlynedd), ond mae angen iddo gynyddu cyflymder cyflawni. Canfuom hefyd fod angen i'r Bwrdd wella'r modd y creffir ar gyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau.

50 Fel a adroddwyd mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Strategaeth Llunio ein Llesiant yn y Dyfodol (strategaeth 10 mlynedd) yn nodi gweledigaeth ac amcanion strategol y Bwrdd Iechyd; datblygwyd y rhain yn 2015. Mae'r Bwrdd Iechyd bron ym mhumed flwyddyn oes y strategaeth, ond mae gennym bryderon ynghylch cyflymder cyflawni. Ym mis Ebrill 2019, cafodd y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni adroddiad hanner ffordd ar y cynnydd o ran cyflawni amcanion strategol. Er bod hwn yn grynodeb defnyddiol, gwnaeth AAau y sylw nad oedd y crynodeb yn dangos beth oedd ar ôl i'w wneud a'r cerrig milltir ar gyfer cyflawni. Yn ychwanegol at y strategaeth 10 mlynedd ac i ategu'r cam nesaf o ran ei chyflawni, mae'r Bwrdd Iechyd wrthi ar hyn o bryd yn datblygu ei Gynllun Gwasanaethau Clinigol ymhellach. Mae'r rhaglen Llunio Ein Llesiant yn y Gymuned yn y Dyfodol, sy'n gyson â'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol sy'n dod i'r amlwg, yn nodi cynigion ar gyfer datblygu'r cynlluniau seilwaith i ategu'r model gofal sydd eisoes wedi'i ddisgrifio yn Llunio Ein Llesiant yn y Dyfodol. Bydd yn bwysig sicrhau bod y Cynllun Gwasanaethau Clinigol a'r cynllun seilwaith yn cynnwys camau nesaf Llunio Ein Llesiant yn y Gymuned yn y Dyfodol. Mae'r cynllun ar gyfer gwasanaethau cymunedol wedi gwneud mwy o gynnydd gydag achosion busnes wedi'u sefydlu ar gyfer tri hwb llesiant ac un ganolfan. Mae'r cynllun ar gyfer gwasanaethau ysbytai ar ffurf dogfen ddrafft o hyd, gyda chynlluniau i ymgysylltu â staff a rhanddeiliaid yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfur 2019. Rydym yn nodi mai ar gyfer 2019-20 y mae'r cynllun gwasanaethau ysbytai, sy'n ffrâm amser wahanol i'r brif strategaeth.

51 Y Cynllun Tymor Canolig Integredig yw'r prif gyfrwng cyflawni ar gyfer y strategaeth 10 mlynedd. Ym mis Ionawr 2019, fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac ym mis Ebrill 2019, cafodd y Cynllun Tymor Canolig Integredig gymeradwyaeth gan y gweinidog am y tro cyntaf mewn tair blynedd. Fe wnaeth cymeradwyo'r Cynllun Tymor Canolig Integredig gyfrannu at isgyfeirio'r Bwrdd o statws ymyriad a dargedir Llywodraeth Cymru i drefniadau rheolaidd ym mis Medi 2019. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi symleiddio ei Gynllun Tymor Canolig Integredig i ganolbwyntio ar chwe maes blaenoriaeth craidd, y mae mantoli'r cyfrifon yn un ohonynt. Tanategir y Cynllun Tymor Canolig Integredig gan nifer o gynlluniau hefyd, gan

gynnwys y strategaeth ystadau, cynllun y gweithlu a rhai cynlluniau ar gyfer byrddau clinigol.

52 Ym mis Gorffennaf 2019, cafodd y Bwrdd ddiweddariad a oedd yn nodi'r broses ar gyfer diweddaru'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, a oedd hefyd yn darparu set o flaenoriaethau cychwynnol ar gyfer 2020-21. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at Ionawr 2020 fel dyddiad ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Er mwyn datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig ar y cyd, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd sesiwn gweithdy ar y cyd gyda byrddau clinigol ac arweinwyr gweithredol. Ar y cyfan, adroddodd y Bwrdd Iechyd bod llai o weithio mewn seilos yn digwydd. Mae hyn i'w briodoli i raddau helaeth i'r her a gyflwynir gan swyddogion gweithredol yn yr adolygiadau o berfformiad gan fyrddau clinigol. Dylai'r arfer o weithio mewn seilos leihau ymhellach unwaith y bydd yr holl wasanaethau corfforaethol a swyddogion gweithredol wedi symud i'r pencadlys newydd yn Woodland House. Dywedodd y rhai y gwnaethom ni gyfweld â hwy fod ymgysylltu da gan AAau â'r broses gynllunio ar gyfer y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

53 Rydym wedi codi'r pwynt yn flaenorol bod angen craffu'n well a'r gyflawni cynlluniau blynyddol. Mae hyn yn dal yn wir ar gyfer Cynllun Tymor Canolig Integredig eleni. Mae'r pwyllgor Strategaeth a Chyflawni yn cael adroddiadau ar y cynnydd gyda phrosiectau a rhaglenni unigol y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Nid yw'n cael crynodeb cyffredinol neu wedi'i goladu ar gynnydd yn erbyn holl ganlyniadau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Diben Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yw amlygu a lliniaru risgiau allweddol i gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd. Y Cynllun Tymor Canolig Integredig yw'r cynllun allweddol ar gyfer cyflawni'r amcanion strategol. Os nad yw'r pwyllgor Strategaeth a Chyflawni a'r Bwrdd yn gallu craffu ar gyflawni ar y cyfan mae hyn yn gadael bwlch o ran sicrwydd. Rydym wedi awgrymu'n flaenorol y gellid cyflwyno fersiwn gryno i'r pwyllgor o'r adroddiadau ar y cynnydd gyda'r Cynllun Tymor Canolig Integredig sydd ar gael yn yr adolygiadau o berfformiad gan fyrddau clinigol.

54 Yn 2018, fe adroddom ni fod y Bwrdd Iechyd wedi datblygu rhaglen drawsnewid i roi cymorth i weithredu ei strategaeth 10 mlynedd. Mae pum ffrwd waith[7], y mae gan bob un ohonynt arweinydd gweithredol ac y maent i gyd ar wahanol gamau o ran cynnydd. Mae'r ffrwd waith diwylliant ac arweinyddiaeth, a frandiwyd fel Amplify 2025, yn weledol ac yn uchelgeisiol. Mae gan y Bwrdd Iechyd gynghrair dysgu gyda Bwrdd Iechyd Canterbury yn Seland Newydd ac mae'n defnyddio dulliau ymgysylltu tebyg. Ym mis Gorffennaf 2019, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd ei ddigwyddiad Amplify 2025 cyntaf. Nod y digwyddiad oedd annog yr 80 aelod o staff a gymerodd ran i feddwl yn wahanol am roi gofal iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio cam nesaf Amplify 2025, sy'n brofiad arddangos y bydd pum mil o bobl gan gynnwys staff, partneriaid a chleifion yn cael gwahoddiad i fod yn bresennol ynddo. Taith brofiad ddwy awr trwy system y Bwrdd Iechyd, gan ymgorffori

[7] Y pum ffrwd waith trawsnewid yw: llwybrau iechyd, cynghreirio, diwylliant ac arweinyddiaeth, sefydliad sydd wedi'i alluogi'n ddigidol a gwybodaeth hygyrch.

modelau darparu gofal a ddefnyddir ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, fydd y digwyddiad arddangos.

55 Mae agweddau ar ffrydiau gwaith eraill yn dechrau cyflawni hefyd. Er enghraifft, mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno system sy'n ei gwneud yn bosibl gwneud penderfyniadau ynglŷn â data mewn amser real ynghylch llif cleifion (Lightfoot Solutions). Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno gwefan llwybrau gofal iechyd, gan gyflwyno llwybrau ar gyfer gwasanaethau sydd dan y pwysau mwyaf yn gyntaf. Mae hefyd yng nghamau cyntaf datblygu porth Y Claf a Ŵyr Orau, sydd wedi'i fwriadu i helpu cleifion i osgoi apwyntiadau dilynol diangen trwy roi cymorth iddynt wella.

# Rheoli adnoddau ariannol

56 Fe wnaethom ystyried y cam gweithredu y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei gymryd i fantoli'r cyfrifon a chreu cynaliadwyedd ariannol mwy hirdymor. Rydym wedi asesu sefyllfa ariannol y sefydliad, y dull cynllunio ariannol, rheolaethau a gwarchodaeth ariannol, a'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ariannol. Fe wnaethom hefyd adolygu'r cynnydd a wnaed o ran rhoi ein hargymhellion ar waith.

57 Canfuom fod y **Bwrdd Iechyd yn parhau i wella'i sefyllfa ariannol refeniw a'i ragfynegiad yw y bydd yn mantoli'r cyfrifon ar ddiwedd 2019-20 ac yn cyrraedd ei darged adnoddau refeniw treigl dros 3 blynedd erbyn 2021-22. Mae rheolaeth ariannol, monitro a throsolwg gan y Bwrdd a phwyllgorau'n gadarn. Ond mae rhai polisïau'n hen ac nid yw pariadau data gan y Fenter Twyll Genedlaethol mewn perthynas â thwyll posibl ym maes caffael wedi cael eu hadolygu eto**. Caiff ein canfyddiadau eu nodi isod.

## Perfformiad a chynllunio ariannol

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau ii wella'i sefyllfa ariannol refeniw a'i gynlluniau gwella costau. Ei ragamcaniad yw y bydd yn mantoli'r cyfrifon ar ddiwedd 2019-20 ac mae'n rhagweld y bydd yn cyrraedd ei darged adnoddau refeniw treigl dros 3 blynedd erbyn 2021-22

58 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo'n gyson i fodloni ei derfyn adnoddau cyfalaf ar gyfer y terfyn blynyddol a'r terfyn tair blynedd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl bodloni'r terfyn adnoddau cyfalaf ar gyfer 2019-20. O ran cyllid refeniw, ar gyfer 2018-19 fe aeth y Bwrdd Iechyd y tu hwnt i'w derfyn gwariant blynyddol a thair blynyddol ar gyfer refeniw net. O ganlyniad, fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol amodi ei farn ynglŷn â rheoleidd-dra yn natganiadau ariannol blynyddol y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gyflawni'r sefyllfa cyfanswm refeniw dan reolaeth o £9.9 miliwn a gytunwyd gyda Llywodraeth Cymru. Cyflawnwyd hyn â chyfanswm cyllid ychwanegol o £10 miliwn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

59 Ar gyfer 2019-20, mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl gweithredu o fewn ei derfyn adnoddau refeniw blynyddol. Fodd bynnag, o ystyried y sefyllfa o ran bod â diffyg yn y ddwy flynedd flaenorol (£26.9 miliwn yn 2017-18 a £9.9 miliwn yn 2018-19) ni fydd yn cyflawni ei ddyletswydd ariannol statudol i fantoli'r cyfrifon dros y cyfnod treigl o dair blynedd hyd at 2019-20. £65.9 miliwn yw'r diffyg tair blynedd treigl hyd at 2018-19. hefyd, mae diffyg cronnol y Bwrdd Iechyd ers cyflwyno'r terfyn adnoddau treigl dros 3 blynedd yn 2014-15 yn £87.2 miliwn.

60 Mae'r ffurflenni ariannol a gyflwynodd y Bwrdd Iechyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer mis pump yn dangos y bydd mantoli'r cyfrifon yn ystod y flwyddyn erbyn diwedd 2019-20 yn her. Roedd gwariant refeniw net y Bwrdd Iechyd ar ddiwedd mis Awst 2019 £2.8 miliwn yn uwch na'r sefyllfa a broffiliwyd. Mae hyn yn gynnydd o £1.8 miliwn yn y sefyllfa ddiffyg a broffiliwyd ar ddiwedd mis Mehefin 2019.

61 Fe adroddom ni y llynedd fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar gyfer adnabod arbedion a datblygi cynlluniau arbedion. £33.8 miliwn oedd y targed arbedion ar gyfer 2018-19, yr aeth y Bwrdd Iechyd y tu hwnt iddo o £0.8 miliwn. Er mwyn mantoli'r cyfrifon ar diwedd 2019-20, mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu targedau arbedion o £31.2 miliwn. Mae manylion y targed fel a ganlyn:

- targed arbedion cylchol o 2% (£16.4 miliwn) a ddirprwywyd i'r byrddau clinigol; a
- tharged arbedion cylchol o 1.8% (£14.9 miliwn) a reolir yn gorfforaethol ac a gyflawnir yn bennaf trwy gyfleoedd gwerth uchel.

62 Yn seiliedig ar fis pump, fe ddiwygiodd y Bwrdd Iechyd ei darged arbedion a'i ostwng o £31.2 miliwn i £26.1 miliwn i adlewyrchu'r ffaith bod £2.1 miliwn wedi'i ryddhau mewn perthynas â chronfa fuddsoddi weddillol y Bwrdd Iechyd a £2.8 miliwn pellach i adlewyrchu tanwariant gweithredol ar Weqas[8].

63 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad a wnaed gennym yn 2017 trwy newid y sail ar gyfer ei dargedau gwella costau o 2019-20, a hynny trwy:

- ddileu targedau arbedion anghylchol;
- pennu targed cylchol o 2% ar gyfer pob bwrdd clinigol, a hwnnw'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd craidd, ond gyda'r disgwyliad y byddant yn dod o hyd i gyfleoedd ar gyfer arbedion pellach y tu hwnt i'w targed dirprwyedig; a hefyd
- targed gwella costau ychwanegol o ddim mwy na 2%, yn seiliedig ar ddata meincnodi a newidiadau arwyddocaol i wasanaethau.

64 Mae ein hadolygiad o'r targed yn y cynllun gwella costau ar gyfer 2019-20 yn cadarnhau bod y Bwrdd Iechyd wedi ymgorffori'r newidiadau uchod yn ei gynllun a'i fod, yn seiliedig ar y sefyllfa ym mis Awst 2019 (mis pump), wedi adnabod arbedion, a'i fod ar y trywydd cywir i gyrraedd ei darged arbedion o £26.1 miliwn yn llawn.

[8] Darparwr asesu ansawdd ar gyfer meddygaeth labordai yw Weqas. Mae'n sefydliad annibynnol sy'n cael ei letya gan y Bwrdd Iechyd.

65 Mae gan y Bwrdd Iechyd system gadarn ar gyfer monitro ei gynlluniau gwella costau, sy'n cynnwys: trosolwg gan y Bwrdd Gwella Costau, y Pwyllgor Cyllid ac mewn adolygiadau o berfformiad gan fyrddau clinigol. Hefyd, cynhyrchir adroddiadau monitro misol ac wythnosol ar gyfer pob bwrdd clinigol. Lle nad yw cynlluniau gwella costau'n cael eu cyflawni, mae byrddau clinigol yn ddarostyngedig i broses uwchgyfeirio'r Bwrdd Iechyd, a ddiweddarwyd yn gynnar yn 2018. Ym mis Rhagfyr 2018, rhoddodd y tîm archwilio mewnol sicrwydd sylweddol i raglen gwella costau'r Bwrdd Iechyd.

66 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella'i ddealltwriaeth a'r modd y mae'n adrodd am weithgarwch a ffactorau cysylltiedig sy'n ysgogi costau. Mae wedi rhoi'r System Gostio Cymru Gyfan 'PCG Monitoring' ar waith, sy'n disodli'r system 'Synergy' flaenorol. Mae'r Bwrdd Iechyd eisoes wedi gweld manteision o roi'r system newydd ar waith, er enghraifft arbedion amser sylweddol wrth gynhyrchu Ffurflenni Costio Cymru 2017-18. Ym mis Ebrill 2019, cafodd y Pwyllgor Cyllid ddiweddariad ar y cynnydd gyda'r system yn unol â'r argymhelliad a wnaed gennym yn 2018.

67 Yn 2017 a 2018 fe wnaethom yr argymhellion canlynol mewn perthynas â chynllunio ariannol. Mae Arddangosyn 6 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 6: cynnydd gyda'r argymhellion ynghylch cynllunio ariannol a wnaed yn 2017 a 2018

| Argymhelliad 2018 | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| **Cynllunio ariannol**<br>A5. Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno'r newyddion diweddaraf am gynnydd wrth brofi a chyflawni Prosiect Gweithredu System Gostio Cymru Gyfan gerbron y Pwyllgor Cyllid, neu'r Bwrdd. | **Wedi'i gwblhau**<br>Darparwyd diweddariad ar gyfer y Pwyllgor Cyllid ym mis Ebrill 2019. Hefyd, mae'r Bwrdd Iechyd bellach wedi rhoi System Gostio Cymru Gyfan ar waith yn llawn. |
| **Argymhelliad 2017** | **Disgrifiad o'r Cynnydd** |
| **Arbedion ariannol**<br>A1. Ar gyfer 2018-19, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddefnyddio gwybodaeth fel data meincnodi er mwyn nodi targedau ymestyn fesul achos mewn meysydd lle gellid gwneud mwy o arbedion. | **Ar y trywydd cywir ond heb ei gwblhau eto**<br>Er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwella'r sail ar gyfer ei dargedau gwella costau, mae'n dal yn y broses o wneud gwelliannau pellach. |

## Rheoli a rheolaethau ariannol

Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith eglur ar gyfer rheoli a monitro'i gyllidebau ac mae ganddo system newydd sy'n lleihau nifer y gweithredoedd tendrau sengl. Fodd bynnag, mae rhai polisïau'n hen ac nid yw pariadau data'r Fenter Twyll Genedlaethol sy'n ymwneud â thwyll posibl ym maes caffael wedi cael eu hadolygu eto

68 Canfu ein Hasesiad Strwythuredig yn 2018 rai gwendidau yn y ddogfennaeth sy'n ategu'r systemau rheolaeth fewnol. Fel a nodir uchod, mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i fynd i'r afael â gwendidau mewn trefniadau llywodraethu a systemau rheolaeth, yn enwedig diweddaru'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'r Cynllun Dirprwyo manwl, y mae angen adolygu'r naill a'r llall ohonynt (gweler Paragraff 28). Canfuom hefyd fod y polisi atal twyll[9] a'r weithdrefn rheoli cyfalaf ill dau yn hen (y dyddiadau adolygu oedd Mehefin 2014 a Chwefror 2019 yn y drefn honno). Dylai'r dogfennau hyn gael eu diweddaru yn unol â'r polisi ar bolisïau a adolygwyd yn ddiweddar gan y Bwrdd Iechyd.

69 Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith eglur i reoli a monitro ei gyllidebau refeniw a chyfalaf. Mae cyllidebau refeniw ynghyd â thargedau arbedion yn cael eu dirprwyo i fyrddau clinigol sydd â chyfrifoldeb am bennu a monitro eu meysydd cyllidebol. Caiff cyllideb pob bwrdd clinigol ei dyrannu ymhellach i ddeiliaid cyllidebau unigol, sy'n gyfrifol am fonitro'u cyllidebau'n fisol. Cefnogir byrddau clinigol gan dimau uwch bartneriaid busnes sy'n rhoi cymorth a chynhorthwy yn y broses fonitro fisol ynghyd â chraffu a her o ran sefyllfa'r gyllideb bob mis. Mae'r cyfrifoldeb am fonitro'r gyllideb gyfalaf wedi'i ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cynllunio (Cyfalaf ac Ystadau) sydd â'r cyfrifoldeb am sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cadw o fewn ei Derfyn Adnoddau Cyfalaf yn flynyddol. Ar lefel weithredol, mae'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cynllunio yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am fonitro cyllidebau cyfalaf unigol i ddeiliaid cyllidebau enwebedig.

70 Canfu ein hasesiad strwythurol yn 2018 fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar gyfer monitro gweithgarwch as gwariant caffael. Ym mis Chwefror 2019, cafodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd adroddiad archwilio mewnol a oedd yn rhoi sicrwydd rhesymol i gydymffurfiaeth contractau. Er bod prosesau a gweithdrefnau ar waith, canfu gwaith profi gan y tîm archwilio mewnol nifer o achosion lle nad oedd staff yn gallu darparu tystiolaeth eu bod wedi cael dyfynbrisiau cyn codi archebion prynu ac un achos lle dylid bod wedi cynnal ymarfer tendro llawn.

71 O ran gweithredoedd tendrau sengl, canfuom fod gan y Bwrdd Iechyd brosesau i ganfod achosion o ddiffyg cydymffurfio ac i reoli a lleihau nifer y gweithredoedd

[9] Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud gwaith pellach i archwilio effeithiolrwydd trefniadau atal twyll ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, gyda golwg ar gyhoeddi ei ganfyddiadau yn haf 2020. Bydd ei waith yn cael ei oleuo gan waith maes lleol a fydd yn dechrau tuag at ddiwedd 2019.

tendrau sengl. Adroddir ar weithredoedd tendrau sengl a gymeradwywyd ym mhob Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ynghyd â manylion diffyg cydymffurfio â gweithdrefnau tendro. I helpu i leihau nifer y gweithredoedd tendrau sengl, ym mis Ebrill 2019 fe gyflwynodd y Bwrdd Iechyd system newydd o'r enw 'MultiQuote', sef gwasanaeth prynu sy'n galluogi prynwyr i ymchwilio i'r farchnad a dod o hyd i gyflenwyr yn gyflym ac yn rhwydd. Mae'r system newydd yn gwneud gwahaniaeth. Yn y chwe mis rhwng mis Ebrill a mis Awst 2019, adroddwyd ar 35 o weithredoedd tendrau sengl wrth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd o'i gymharu â 66 yn y cyfnod o bedwar mis rhwng mis Rhagfyr a mis Mawrth 2019.

72 Ymarfer paru data bob dwy flynedd yw'r Fenter Twyll Genedlaethol sy'n helpu i ganfod twyll a gordaliadau trwy baru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i adnabod hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n anghywir. Mae'n offeryn hynod effeithiol i ganfod ac atal twyll a gordaliadau ac i helpu sefydliadau i gryfhau eu trefniadau atal twyll a llygredigaeth. Fe gyflwynodd cyrff sy'n cyfranogi ddata i ymarfer paru data cyfredol y Fenter Twyll Genedlaethol ym mis Hydref 2018.

73 Ym mis Ionawr 2019, cafodd y Bwrdd Iechyd 6,983 o bariadau data trwy gymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol. Er na fyddem yn disgwyl i sefydliadau adolygu pob pariad data, caiff rhai o'r pariadau eu categoreiddio fel 'pariadau a argymhellir'. Pariadau yr ystyrir eu bod yn risg uchel yw'r rhain ac yr argymhellir felly eu bod yn cael eu hadolygu'n gynnar. Roedd pariadau'r Bwrdd Iechyd yn cynnwys 823 o bariadau a argymhellir. Dengys cymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol, sy'n cofnodi canfyddiadau adolygiad y Bwrdd Iechyd o'i bariadau data, ar 15 Hydref 2019, fod y Bwrdd Iechyd wedi cwblhau neu ei fod yn y broses o adolygu'r rhan fwyaf o'r pariadau risg uchel. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da ar y cyfan o ran mynd i'r afael â phariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol. Fodd bynnag, rydym yn nodi nad yw'r Bwrdd Iechyd i'w weld fel pe bai wedi adolygu pariadau rhwng data'r gyflogres, taliadau i gredydwyr a Thŷ'r Cwmnïau. Mae'r rhain yn bariadau pwysig gan eu bod yn gallu helpu i adnabod buddiannau staff heb eu datgelu a thwyll ym maes caffael. Rydym felly'n argymell bod y Bwrdd Iechyd yn adolygu'r pariadau data hyn fel mater o frys.

74 Yn 2018 fe wnaethom yr argymhellion canlynol mewn perthynas â phariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae Arddangosyn 7 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 7: cynnydd gyda'r argymhelliad yn 2018 ynghylch pariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol

| Argymhelliad 2018 | Disgrifiad o'r Cynnydd |
|---|---|
| **Pariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol**<br>A6. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl barau a argymhellir o ymarfer nesaf yr NFI ym mis Ionawr 2019 yn cael eu hadolygu, a bod ymchwiliad prydlon yn cael ei gynnal iddynt lle bo angen. | **Ar y trywydd cywir ond heb ei gwblhau eto**<br>Er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da ar y cyfan o ran mynd i'r afael â phariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol, dylai adolygu pariadau rhwng data'r gyflogres, taliadau i gredydwyr a Thŷ'r Cwmnïau fel mater o frys. |

## Trosolwg a chraffu ar berfformiad ariannol

### Mae trosolwg a chraffu ar berfformiad ariannol ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau'n gryf

75 Mae gan y Bwrdd Iechyd broses eglur ar gyfer monitro cyllidebau misol, sy'n sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chofnodi, ei dadansoddi a'i chyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid, y Bwrdd ac i Lywodraeth Cymru. Mae gan y Bwrdd Iechyd rolau a ddiffinnir yn glir ar gyfer monitro perfformiad ariannol ac adrodd arno, ac ar gyfer craffu a herio'n ddigonol. Mae'r Pwyllgor Cyllid, sy'n cwrdd yn fisol, yn cael adroddiadau ariannol manwl sydd wedi'u strwythuro'n dda ac yn llawn gwybodaeth ar y cyfan. Mae lefel y manylder ynddynt yn ddigonol ac yn briodol i alluogi aelodau'r Pwyllgor i graffu'n ddigonol ar y sefyllfa ariannol. Rhoddir digon o amser i aelodau i'w galluogi i graffu ar y sefyllfa ariannol a'i herio cyn ac yn ystod cyfarfodydd. Mae adroddiadau ariannol yn nodi data yn ôl fformat traddodiadol, sef incwm, gwariant ar gyflogau a gwariant arall, llifoedd arian a chynlluniau cyfalaf pwysig. Mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd trwy adroddiad cryno ar y sefyllfa ariannol. Mae'r adroddiad yn rhan annatod o'r adroddiad ar berfformiad.

# Rheoli cynhyrchiant ac effeithlonrwydd y gweithlu

76 Fe wnaethom ystyried y cam gweithredu y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei gymryd i sicrhau bod ei weithlu'n cael ei reoli'n dda ac yn gynhyrchiol. Fe wnaethom hefyd asesu trefniadau ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi a datblygu a cham gweithredu i ymgysylltu â staff a gwrando arnynt a mynd i'r afael ag anghenion o ran llesiant. Fe adolygon ni'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion.

77 Canfuom fod **heriau'n dal i fodoli mewn perthynas â'r gweithlu, megis cydymffurfio o ran cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol, recriwtio i rai swyddi meddygon ymgynghorol a chyfraddau arfarniadau isel. Ond mae'r Bwrdd Iechyd yn canlyn arni â chynlluniau i fynd i'r afael â'i faterion, gyda llwyddiant o ran recriwtio nyrsys a chyflawni ei raglen diwylliant ac arweinyddiaeth.**

78 Canfu ein Hasesiad Strwythuredig yn 2018 fod y Bwrdd Iechyd yn datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â'i heriau mewn perthynas â'r gweithlu ond ei fod wedi methu mynd i'r afael â chynllunio swyddi meddygon ymgynghorol. Eleni, er bod heriau'n bodoli o hyd mewn perthynas â'r gweithlu mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd i fynd i'r afael â hwy. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael llwyddiant o ran recriwtio nyrsys a chyflawni'r ffrwd waith trawsnewid diwylliant ac arweinyddiaeth (a frandiwyd fel Amplify 2025).

79 Y llynedd fe adroddon ni fod perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn rhai mesurau allweddol sy'n ymwneud â'r gweithlu, o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, yn gymysglyd. Mae Arddangosyn 6 yn dangos perfformiad yn ôl y sefyllfa ym mis Gorffennaf 2018 a 2019, a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ym mis Gorffennaf 2019.

Arddangosyn 8: perfformiad yn erbyn mesurau allweddol sy'n ymwneud â'r gweithlu, Gorffennaf 2018 a 2019

| | Y Bwrdd Iechyd Gorffennaf 2018 | Y Bwrdd Iechyd Gorffennaf 2019 | Y Bwrdd Iechyd Gorffennaf 2018 o'i gymharu â 2019 | Cyfartaledd Cymru Gorffennaf 2019 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfartaledd Salwch | 5.1% | 5.2% | ↑ | 5.4% |
| Trosiant | 9.8% | 10.4% | ↑ | 7.1% |
| Swyddi Gwag | 3.2% | 2.3% | ↓ | 2.9% |
| Arfarniadau | 61% | 56% | ↓ | 70% |
| Hyfforddiant statudol a gorfodol | 75% | 77% | ↑ | 80% |

Ffynhonnell: Dangosfwrdd y Gweithlu GIG Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Gorffennaf 2018 a 2019

80 Mae Arddangosyn 8 yn dangos bod cyfraddau salwch wedi codi ychydig (0.1%) ers y llynedd, ond bod perfformiad y Bwrdd Iechyd yn well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (o 0.2%). Ym mis Ebrill 2019, cafodd y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni adroddiad a oedd yn mynd at wraidd mater absenoldeb oherwydd salwch ynghyd â 'chynllun cynyddu presenoldeb i'r eithaf' i fynd i'r afael â materion. Datgelodd yr adroddiad a oedd yn mynd at wraidd y mater mai gorbryder a straen yw'r rheswm mwyaf dros absenoldeb oherwydd salwch. Mewn ymateb i hyn, ym mis Medi 2019, cytunodd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i gyllido'r gwasanaeth llesiant cyflogeion trwy Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro.

81 Adroddodd y Bwrdd Iechyd fod llawer o waith wedi cael ei wneud i recriwtio nyrsys eleni, gan ddefnyddio ystod o gyfryngau cymdeithasol a diwrnodau agored i ddenu staff. O ganlyniad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi nifer o ymgeiswyr tramor ac mae ymgeiswyr posibl trwy fentrau recriwtio eraill. Dengys Arddangosyn 8 fod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni gostyngiad o 0.9% yn ei gyfradd swyddi gwag ers y llynedd a bod ei berfformiad 0.6% yn well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae hyn yn cyfateb i 105 yn llai o swyddi gwag na'r llynedd, gyda thros hanner (54% neu 57 aelod o staff) i'w priodoli i gynnydd mewn staff nyrsio a bydwreigiaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gweithio gyda'r Academi Prentisiaeth a'r awdurdodau lleol sy'n bartneriaid iddo i gynnig prentisiaethau i bobl ifanc 16-19 oed, grŵp oedran sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud ei ran i hybu gofal iechyd seiliedig ar werthoedd a chynyddu cymysgedd sgiliau staff. Er enghraifft, mae'n arwain ar gwricwlwm endosgopi i hyfforddi nyrsys ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, mae rhai swyddi meddygon ymgynghorol yn dal i fod yn her i'w llenwi. Er enghraifft, radiolegwyr ymyriadol ac arbenigwyr mewn theatrau llawdriniaethau.

82 Ers y llynedd, mae cyfradd arfarniadau'r Bwrdd Iechyd wedi gostwng 5% ac mae 14% islaw cyfartaledd Cymru (Arddangosyn 8). Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diwygio'r broses Arfarniad ac Adolygiad o Ddatblygiad Personol (PADR) ac ym mis Mehefin 2019 fe gyflwynodd yr Arfarniad Seiliedig ar Werthoedd (VBA). Mae'r Arfarniad ac Adolygiad o Ddatblygiad Personol yn canolbwyntio ar berfformiad, yr hyn y mae staff yn ei wneud a datblygiad cyflog. Er bod yr elfennau hyn yn dal i fodoli, mae'r Arfarniad Seiliedig ar Werthoedd blynyddol yn drafodaeth am werthoedd ac ymddygiadau disgwyliedig, ac anghenion a dyheadau o ran datblygu. Y gobaith gyda'r dull newydd hwn yw hyrwyddo diwylliant y sefydliad, rheoli talent a helpu i gynllunio ar gyfer olyniaeth. Mae hyfforddiant ar Arfarniadau Seiliedig ar Werthoedd yn cael ei gyflwyno i uwch reolwyr ac mae'n cynnwys annog rheolwyr i ddefnyddio arddull anogwr i hybu sgyrsiau cadarnhaol gyda staff.

83 Mae cydymffurfio o ran cynllunio swyddi yn y Bwrdd Iechyd yn dal i fod yn her. Ym mis Medi 2019, cafodd y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni ddangosfwrdd perfformiad mewn perthynas â'r gweithlu ar gyfer Mehefin 2019. Mae'n dangos bod cynlluniau swyddi wedi'u cofnodi ar gyfer 89% o'r ymgynghorwyr, yr oedd 27%

ohonynt wedi cael eu hadolygu o fewn 12 mis[10]. Ym Mhwyllgor Archwilio a Sicrwydd Medi 2019, rhoddodd y Cyfarwyddwr Meddygol newydd ddiweddariad llafar ar ei uchelgeisiau ar gyfer cynllunio swyddi. Ei nod yw safoni cynlluniau swyddi a chyflwyno system ganolog ar gyfer eu cofnodi, ond ni nodwyd ffrâm amser.

84 Yn 2017, fe argymhellon ni fod y Bwrdd Iechyd yn ehangu'r ystod o fertigau perfformiad yr adroddir arnynt wrth y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni fel eu bod yn cynnwys ystod ehangach o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n ymwneud â'r gweithlu. Ym mis Mehefin 2019, fe gyflwynodd y Bwrdd Iechyd fformat newydd ar gyfer ei ddangosyddion allweddol mewn perthynas â'r gweithlu. Mae'r adroddiad, sy'n dangos 18 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol, yn cael ei gyflwyno'n glir a chafodd dderbyniad da gan y pwyllgor. Ers mis Ebrill 2019, mae'r pwyllgor yn cael dangosfwrdd perfformiad mewn perthynas â'r gweithlu ym mhob un o'i gyfarfodydd. Er nad oes naratif i gyd-fynd â'r dangosfwrdd, mae'r pwyllgor yn cael adroddiadau rheolaidd sy'n mynd at wraidd y mater ar feysydd o ran y gweithlu lle ceir tanberfformiad.

85 Yn 2018, dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym y byddai'n rhedeg adolygiadau 180-gradd ar gyfer ei arweinwyr uchaf (band 8 ac uwch). Nod yr adolygiadau yw deall arddulliau arwain cyfredol gyda golwg ar gyflwyno arddull anogwyr, sy'n seiliedig ar lefel uchel o ymddiriedaeth ac yn llai biwrocrataidd. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym fod 40 o arweinwyr wedi cael eu hadolygiad hyd yma. Cynhaliwyd yr adolygiad 180-gradd gan gwmni allanol o'r enw Korn Ferry. Cafodd pob arweinydd adroddiad unigol. Cyflwynodd Korn Ferry ganlyniadau lefel-uchel i'r 40 o arweinwyr ar y cyd i ddangos arddull arwain cyfredol y sefydliad. Mae'r Bwrdd Iechyd ar fin cynnal yr adolygiad gyda 40 o arweinwyr eraill. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu hyfforddi cronfa o staff i gynnal adolygiadau 180-gradd yn fewnol.

86 Ers 2018, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni gwelliant o 2% yn ei hyfforddiant statudol a gorfodol, ond mae 3% islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan, sef 80%. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i adolygu gofynion hyfforddiant statudol a gorfodol ar gyfer gwahanol rolau. Hyd yma, mae hyfforddiant ar lefel un a dau yn briodol i'r rolau ond mae angen gwaith pellach i adolygu hyfforddiant lefel tri a phedwar.

87 Mewn ymateb i arolwg staff y GIG y llynedd fe sefydlodd y Bwrdd Iechyd grŵp rhanddeiliaid ar gyfer cyflogeion, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, i ystyried canlyniadau'r arolwg a datblygu cynllun gweithredu. Roedd y gweithgor yn cynnwys tua 50 o wirfoddolwyr o blith staff sy'n gweithio ar draws y sefydliad. Ym mis Ebrill 2019, cyflwynwyd y cynllun gweithredu i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni. Mae'r cynllun gweithredu'n canolbwyntio ar bedair prif thema: ymgysylltu, arweinyddiaeth, diwylliant ac ymddygiad a chynnwys.

[10] Fel rhan o'r rhaglen o waith lleol y flwyddyn nesaf, byddwn yn cynnal adolygiad dilynol o argymhellion a wnaed trwy ein hadolygiadau o gontractau meddygon ymgynghorol y GIG.

Mae grŵp llywio arolwg staff wedi cael ei sefydlu i lywio'r cynllun gweithredu, ond nid yw wedi adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni eto.

88 Yn 2017 fe wnaethom yr argymhelliad canlynol mewn perthynas â'r adroddiad ar berfformiad mewn perthynas â'r gweithlu. Mae Arddangosyn 9 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 9: cynnydd gyda'r argymhelliad a wnaed yn 2017 ynghylch yr adroddiad ar berfformiad mewn perthynas â'r gweithlu.

| Argymhelliad 2017 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Adrodd ar berfformiad**<br>A7. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y lefel o wybodaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor Adnoddau a Chyflawni am ei berfformiad yn ddigonol i alluogi'r Pwyllgor i graffu'n effeithiol. Dylai hyn gynnwys:<br>a) Gweler Arddangosyn 5 am yr argymhelliad ynghylch adroddiadau i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni.<br>b) ehangu'r amrywiaeth o fetrigau perfformiad i gynnwys ystod ehangach o ddangosyddion perfformiad allweddol yn ymwneud â'r gweithlu. Dylid ystyried ailedrych ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol blaenorol ar gyfer y gweithlu a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad blaenorol (cafodd hwn ei ddisodli gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni). | **Wedi'i gwblhau**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno dangosfwrdd eglur, newydd ar gyfer ei ddangosyddion allweddol mewn perthynas â'r gweithlu, a ategir gan adroddiadau rheolaidd sy'n mynd at wraidd y mater ac a gyflwynir i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru